COFNODION
PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG FESTIVAL 2022 LTD
("Festival")

***9.00–11.00am, Dydd Mercher 31 Mawrth 2021**

Cynhelir trwy Gyfarfod Microsoft Teams

Aelodau:

Faraz Tasnim (FT) (Cadeirydd)	Cyfarwyddwr y Bwrdd, Festival 2022 Ltd
Liam Hannaway (LH)	Cyfarwyddwr y Bwrdd, Festival 2022 Ltd
Roger Lewis (RL)	Cyfarwyddwr y Bwrdd, Festival 2022 Ltd

Arsyllydd:

Alison Breadon (AB)	PWC
Adam Richards (AR)	PWC
Daniel Coles (DC)	Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
Greg Wilson (GC)	Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Yn bresennol:

David Grady (DG)	Prif Swyddog Ariannol y Grŵp, y Pwyllgor Trefnu a Festival 2022 Ltd
Caroline McGrory (CMcg)	Ysgrifennydd y Cwmni a Phrif Swyddog Cyfreithiol y Grŵp, y Pwyllgor Trefnu a Festival 2022 Ltd
John Darnbrook (JD)	Pennaeth Integreiddio Busnes, Festival 2022 Ltd
Phil Batty (PBa)	Cyfarwyddwr Gweithredol, Festival 2022 Ltd
Sarb Hair (SH)	Cydlynydd Gweithrediadau Corfforaethol, Festival UK* 2022 (Ysgrifenyddiaeth)
Richard Pomfret (RP)	Uwch-reolwr Cyllid, Festival UK* 2022
Lucy Bailey (LB)	Uwch-gwnselydd Cyfreithiol, Festival UK* 2022

Ymddiheuriadau:

Amali de Alwis (AA)	Cyfarwyddwr y Bwrdd, Festival 2022 Ltd

EITEM RHIF	EITEM	CYFRIFOLDEB DROS WEITHREDU
	Croeso a Chyflwyniadau Agorodd FT y cyfarfod, nodwyd ymddiheuriadau, a chadarnhawyd y bydd VH yn parhau i gael ei gwahodd drwy gydol y flwyddyn i unrhyw ddigwyddiadau allweddol. Rhoddodd wybod i'r pwyllgor hefyd fod Simon Ball, Cadeirydd Pwyllgor Trefnu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, wedi ei wahodd i'n cyfarfod nesaf ym mis Mehefin.	
I	**Cymeradwyo'r Cofnodion a Materion sy'n Codi** Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2021. Cododd FT faterion sy'n codi fel a ganlyn: • Cam Gweithredu 9 – RP i adlewyrchu sylwadau'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon mewn polisi gwrth-dwyll a dosbarthu'r fersiwn derfynol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg - Cadarnhaodd RP fod angen iddo gwblhau ei nodyn erbyn diwedd mis Ebrill. Cam gweithredu i ddod. • Cam Gweithredu 14 – Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i gael yr wybodaeth	**RP**

	ddiweddaraf am y broses o drafod Penawdau'r Telerau er mwyn Comisiynu Contractau gyda'r 10 Prosiect Terfynol (y "**10 Comisiwn Llawn**") - cadarnhaodd FT fod hyn ar yr agenda i'w drafod heddiw. Caewyd y Cam Gweithredu.	

2.1	**Diweddariad Gweithredol** Rhoddodd PBa yr wybodaeth ddiweddaraf am y penawdau allweddol canlynol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg: • Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r Prif Weinidog, Ysgrifennydd y Cabinet yn yr Alban a Phrif Weinidog Cymru • Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol • Mae Festival wedi contractio a chyhoeddi'r 10 Comisiwn Llawn i'r cyhoedd • Mae systemau a phrosesau a sefydlwyd gan Festival yn ystod y chwe mis diwethaf yn gweithio ac yn gweithredu mewn rhythm misol mwy cylchol • Erbyn hyn, mae gan dimau mewnol strwythurau gwell ar waith gyda mwy o hierarchaeth a rheolaeth, ac mae gan y 10 Comisiwn Llawn Uwch-gynhyrchydd neilltuedig sydd wedi ei baru â rheolwr ymgyrch strategol. • Canolbwyntio ar recriwtio dros yn ystod y chwe mis nesaf • Canolbwyntir ar ddrafftio a chwblhau cytundebau comisiynu llawn y 10 Comisiwn Llawn, gan weithio gyda LB a chyngor allanol • Mae perthynas Festival ar draws y Pedair Gwlad yn gadarnhaol iawn • Mae Cymru Greadigol wedi penodi person ychwanegol, sy'n darparu person ychwanegol yn y corff cyflawni strategol • Diolch i LH am sicrhau cyllideb i Gyngor Dinas Belfast oddi wrth Weithrediaeth Gogledd Iwerddon Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r adnoddau sydd ar waith i reoli a llywio'r 10 Comisiwn Llawn, gan gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio medusrwydd ac arbenigedd Aelodau'r Bwrdd.	
3.1 **3.2**	**Diweddariad Archwilio Interim Allanol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol** Rhoddodd GW drosolwg o Archwiliad Allanol proses gaffael y rhaglen greadigol. **Diweddariad Archwilio Mewnol PWC** Rhoddodd AR drosolwg o'r gwaith Archwilio Mewnol a wnaed eisoes a'r cynllun wrth symud ymlaen. AR i ddarparu adroddiad llawn ar ganlyniadau unrhyw archwiliadau mewnol a gwblheir i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg mewn modd amserol.	**AR**
4.	**Dull: Negodi Contractau Comisiynu** Rhoddodd LB drosolwg o'r dull o negodi contractau comisiynu hyd yma ac ar gyfer y 10 Comisiwn Llawn. Cafwyd trafodaeth ynghylch y dull comisiynu ar gyfer pob un o'r Gwledydd Datganoledig. **Cofnododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y ffioedd comisiynu terfynol ar gyfer estyn y Cytundebau Ymchwil a Datblygu.** **Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y dull cyffredinol o negodi'r** **contractau comisiynu. Nododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gynnwys** **ehangach yr adroddiad.**	

5.1	**Adroddiad Perfformiad Ariannol** Rhoddodd RP yr wybodaeth ddiweddaraf am y perfformiad ariannol o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol bresennol (2020/2021) a'r Gyllideb Hyd Oes.	**DC**

	DC i ymgysylltu â'r Trysorlys ar amserlenni ar gyfer y broses Achos Busnes Terfynol. PBa i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y prosesau Achos Busnes sy'n ymwneud â'r Gwledydd Datganoledig. **Nododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gynnwys y papur**.	**PBa**
5.2	**Llywodraethu Diwedd y Flwyddyn** Rhoddodd RP yr wybodaeth ddiweddaraf am y prosesau llywodraethu y mae'n ofynnol i Festival eu cwblhau yn rhan o'i weithdrefnau diwedd y flwyddyn. **Nododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gynnwys y papur.**	
5.3	**Dyfarniadau Ariannol Allweddol a Pholisïau Cyfrifyddu** Rhoddodd RP yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg am y dyfarniadau ariannol allweddol a'r polisïau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. **Nododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gynnwys y papur.**	
5.4	**Archwiliad Dwfn: Adolygiad o Gostau Gweithredol** Rhoddodd PC ddiweddariad manwl ar y gyllideb sylfaenol ar gyfer costau gweithredol hyd oes Festival **Nododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gynnwys y papur.**	
6.	**Cytundeb Rhwng Cwmnïau** Rhoddodd DG yr wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau rhwng cwmnïau sydd ar waith rhwng Festival ac Phwyllgor Trefnu Gemau Gymanwlad Birmingham, sef ei riant-gwmni. Cafwyd trafodaeth ynghylch cynnwys y cytundeb ac yn benodol meincnodi'r canrannau a gynigir fel taliadau a ailgodir. Nodwyd bod y canrannau hyn yn seiliedig ar dystiolaeth o'r amser gwirioneddol a gofnodwyd ers i'r unigolion allweddol ymgorffori Festival. Cadarnhaodd AR fod yr egwyddorion hyn yn edrych yn synhwyrol. **Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gynnwys y papur a'r egwyddorion allweddol sydd ynddo a bydd y cytundeb yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd i gael ei gymeradwyo**. **CAM GWEITHREDU**: PWC i adolygu'r cytundeb cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Bwrdd i gael ei gymeradwyo.	**AR/AB** **CMcG/LB/AB**

7.	**Bydysawd Risg a Throsolwg o'r Newidiadau Allweddol i'r Proffil Risgiau** Rhoddodd JD drosolwg o'r bydysawd risg strategol. Mae'r ddau risg COVID wedi eu hisraddio i oren, ond maent yn dal i gael eu nodi fel risgiau. Cyfeiriwyd hefyd at risgiau gweithredol allweddol. Risg 27 – Colli cefnogaeth y cyhoedd - cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r risg hon, yn enwedig yng ngoleuni'r ymrwymiadau diweddar â'r sector creadigol yng Nghymru.	

8.1	**Blaengynllun y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg** **Nododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y blaengynllun.**	
8.2	**Y Llif Prosiectau Caffael** Rhoddodd JD yr wybodaeth ddiweddaraf am y llif prosiectau caffael.	
8.3	**Unrhyw Fusnes Arall** Dywedodd PBa wrth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei fod wedi derbyn cytundeb ffurfiol oddi wrth yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer rheolaethau gwario ar gyfer marchnata a chyfathrebu.	

Traciwr Camau Gweithredu		Y Sawl sy'n Gyfrifol	Dyddiad Cwblhau	Statws
Camau gweithredu o 29/01/21				
1	Parhau i fonitro cyllid y Gweinyddiaethau Datganoledig / Cyrff Cyflawni Strategol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fonitro ariannol ar draws rhaglenni er sicrwydd. Sefydlu gweithgor cyllid pedair gwlad o fis Ebrill 2021 ymlaen.	RP	Mai 21	Ar y Gweill
2	Parhau i adolygu sefyllfa'r dreth yn rheolaidd, dylid gwneud gwaith adolygu penodol cyn gynted ag y bydd y 10 prosiect yn cael eu cadarnhau.	RP	Mai 21	Cyfredol
3	Olrhain ac adolygu hyfforddiant Polisi'r Gweithlu.	JD	Mai 21	Ar y Gweill
Camau gweithredu o 18/02/21				
4	RP i adlewyrchu sylwadau yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon mewn polisi gwrth-dwyll a dosbarthu'r fersiwn derfynol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.	RP	Ebrill 21	Ar y Gweill
5	PWC i gwblhau gwiriadau annibynnol ar unrhyw wrthdaro buddiannau posibl sy'n deillio o wahanol adrannau mewnol yn gweithio gydag unrhyw un o'r deg tîm a gomisiynwyd	AR	Mai 21	Ar y Gweill
Camau gweithredu o 31/03/21				
6	AR i ddarparu adroddiad llawn ar ganlyniadau unrhyw archwiliadau mewnol a gwblheir i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg mewn modd amserol	AR	Mehefin 21	Cam Gweithredu Newydd
7	DC i ymgysylltu â'r trysorlys ar amserlenni ar gyfer y broses achos busnes terfynol	DC	Mehefin 21	Cam Gweithredu Newydd
8	PBa i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y prosesau achos busnes y mae'r gwledydd datganoledig yn eu dilyn	PBa	Mehefin 21	Cam Gweithredu Newydd
9	PWC i adolygu'r cytundeb Rhwng Cwmnïau cyn iddo gael ei gyflwyno i'r bwrdd i gael ei gymeradwyo.	AR/AB	Mai 21	Cam Gweithredu Newydd